






Our Vale · Ein Bro
Vale of Glamorgan Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

# EIN BRO - EIN DYFODOL

**Ein Bro – Ein Dyfodol yw cynllun Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg i wella bywyd ar gyfer pawb yn y Fro heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi llunio gweledigaeth hirdymor ar gyfer 2050 y dylanwadwyd arni gan ein hasesiad llesiant a gyhoeddwyd yn 2017.**

**Rydym wedi siarad ag ystod o bobl a sefydliadau sy'n byw neu weithio ym Mro Morgannwg ac wedi cytuno ar bedwar amcan llesiant. Credwn fod yr amcanion yma yn adlewyrchu yr hyn y gallwn ei wneud gyda'n gilydd dros y pum mlynedd nesaf i wella bywyd yn y Fro ac fel camau cyntaf tuag at gyflawni ein gweledigaeth hirdymor.**

**Credwn hefyd fod y pethau yma yn dangos y modd y gallwn wneud y gorau o'n cyfraniad at amcanion llesiant cenedlaethol Cymru.**




**Isod nodir ein pedwar nod llesiant a'r camau a gymerwn dros y pum mlynedd nesaf i'w gwireddu.**



## Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapio gwasanaethau lleol

- Mabwysiadu'r egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus yng Nghymru
- Ymchwilio i'r arfer gorau i ddatblygu dulliau newydd
- Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli
- Cynhyrchu pecyn cymorth ymgysylltu
- Gweithio gyda'r gymuned i adnabod a chyflawni project ar y cyd fel model ar gyfer gwaith yn y dyfodol
- Datblygu mwy o wybodaeth am ein cymunedau lleol
- Gweithio gyda staff ar y rheng flaen a gwirfoddolwyr i'w grymuso nhw i ddwyn sylw at wasanaethau a gwybodaeth
- Archwilio potensial cynllun Bancio Amser i'r Fro.

## Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd

- Gwneud gwaith pellach i ddeall yn well y problemau sy'n wynebu ein cymunedau mwyaf difreintiedig
- Gweithio mewn partneriaeth gyda phrojectau ac asiantaethau sydd eisoes yn cefnogi'r rheiny mewn tlodi
- Hyrwyddo negeseuon ymddygiad iachus
- Gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu a chyflawni project amgylcheddol yn un o'n ardaloedd mwy difreintiedig
- Datblygu dull mwy strategol wedi ei alinio'n well ar draws rhaglenni a ddyluniwyd i fynd i'r afael â thlodi a chefnogi pobl sy'n agored i niwed
- Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd gwaith
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd
- Gwella'r amgylchedd i annog chwarae yn yr awyr agored o fewn ein cymunedau mwy difreintiedig
- Gweithio gyda Phartneriaeth Fwyd y Fro i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â mynediad i fwyd a'i fforddiadwyedd

## Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

- Defnyddio ymchwil ac arfer gorau i fwydo darpariaeth y blynyddoedd cynnar
- Datblygu sgiliau rhianta trwy weithgareddau chwarae ynghlwm wrth yr amgylchedd naturiol
- Datblygu gwell dealltwriaeth o brofiadau plentyndod negyddol a datblygu dulliau newydd i amddiffyn, cefnogi ac atal
- Adolygu'r modd y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynnig gwasanaethau i bobl ifanc a phlant
- Gwella'r modd y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi pobl ac atal cam-drin domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cysylltiedig eraill gan gydnabod anghenion oedolion a phlant

## Amddiffyn, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd

- Deall a lleihau unrhyw effaith negyddol y gall ein sefydliad ei gael ar yr amgylchedd e.e. yn ymwneud â llygredd awyr, defnydd o ynni a pherygl llifogydd
- Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy, annog pobl i gerdded neu feicio a gweithio gyda'r Brifddinas-ranbarth i wella trafnidiaeth gyhoeddus
- Adolygu ein hasedau tir a'r modd y gellir eu defnyddio i fod o fudd i'r gymuned a'r amgylchedd
- Gweithio gyda busnesau lleol a diwydiant i wneud y gorau o fuddion economaidd ein hamgylchedd tra'n lleihau'r effeithiau negyddol
- Cydweithio i archwilio'r modd y gall ein polisïau caffael a'n harferion ein hunain fod o fudd i'r amgylchedd a'r economi leol
- Gweithio gyda Phartneriaeth Fwyd y Fro i ennill statws Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy

let's talk
amser siarad

**Rydym am barhau i sgwrsio â chi am yr hyn rydych chi'n meddwl sy'n bwysig a'r hyn sydd angen i ni ei wneud. Rydym hefyd am siarad â chi am yr hyn y gallwch chi ei wneud i'n helpu i gyrraedd ein hamcanion a gwneud y Fro yn lle gwell i bawb. Bob blwyddyn byddwn yn dweud wrthych pa mor dda rydym wedi gwneud yn ein tyb ni a byddwn yn gofyn i chi roi eich barn ar yr hyn a gyflawnwyd gennym. Am fwy o wybodaeth am y BGC ac i ddarllen www.valepsb.wales**